# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 07-08 (p3) : 5 Mawrth 2008**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Coleg y Drindod, Caerfyrddin (CYD) yn cefnogi'r farn eang a gyflwynwyd gan Addysg Uwch Cymru (AUC) yn ei ymateb i'r adolygiad hwn. Mae'r cyflwyniad canlynol yn ceisio amlygu'r cyfraniad arbennig y mae CYD yn ei wneud o ran ymrwymiad strategol â busnes yng Nghymru a thu hwnt, a'i effaith ar yr economi leol a rhanbarthol.

## 2. Coleg y Drindod Caerfyrddin

2.1 O fewn cyd-destun Cymru, Mae gan Goleg y Drindod briodoleddau sy'n ei wneud yn wahanol i bob SAU arall. Mae ganddo rôl arbennig i'w chwarae o fewn addysg uwch.

Fel prifysgol gymunedol, bu'r sefydliad yn dra ymwybodol o'i rôl fel darparwr allweddol dysgu gydol oes. Mae'r cynllun strategol presennol yn cadarnhau rôl y sefydliad o ran gwasanaethu anghenion gorllewin Cymru ac o ran datblygu ystod o strategaethau i gefnogi amrywiol bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Wrth wneud hyn, mae'n mynegi diben bodolaeth creiddiol y sefydliad fel prifysgol gymunedol, sy'n cynnig ystod o raglenni o safon sy'n gwneud cyfraniad effeithiol i ffyniant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Mae ei rôl ym mywyd Cymru, fel canolfan sy'n hyrwyddo'r celfyddydau, addysg a'r iaith Gymraeg, yn ei roi ar yr un tir â sefydliadau prifysgol arbenigol eraill o fewn y sector addysg uwch.

2.2 Comisiynwyd Bute Communications yn 2005 gan Goleg y Drindod i gynnal asesiad annibynnol o rôl strategol y sefydliad yn sgil amryw o gynlluniau polisi a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rhoddwyd y gorchwyl iddynt asesu dylanwad economaidd y sefydliad ar economi leol de-orllewin Cymru. Mae casgliadau'r adroddiad hwn yn nodi'n glir y cyfraniad mae'r Coleg yn ei wneud i economi a chymdeithas Cymru:

"Mae tystiolaeth glir i gefnogi'r honiad ei fod yn cyfrannu at hunaniaeth genedlaethol gref a bywiog ac y'i cydnabyddir fel sefydliad academaidd sy'n gwasanaethu anghenion Cymru. Cafwyd newidiadau enfawr i strwythur a rheolaeth y Coleg er 2000 ac mae wedi datblygu portffolio academaidd newydd yn llwyddiannus a hwnnw'n atgyfnerthu ei gyfraniad nodedig fel Prifysgol Gymunedol sy'n weithgar, yn arloesi ac yn ymateb i newid. Mae ethos dwyieithog cryf y sefydliad yn ei wneud yn un o brif sefydliadau academaidd Cymru o ran hyrwyddo ieithoedd a diwylliannau Cymru."

Yn ogystal, cadarnhaodd canfyddiadau'r ail Adroddiad Rees mai'r Drindod, o'r holl sefydliadau yng Nghymru, oedd â'r canran uchaf o fyfyrwyr yn preswylio yng Nghymru. Roedd mwyafrif llethol y myfyrwyr a fynychai Coleg y Drindod [92.4%] yn dod o Gymru. Dengys yr ymchwil hefyd fod gan y Coleg y ganran uchaf o fyfyrwyr rhwng 18-20 a ddeuai o Gymru [85%]. Yn 2006/07, roedd 2626 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru, ac o'r rhain roedd 1222 yn rhan-amser (46.5%).

## 3. Coleg y Drindod fel cyflogwr a defnyddiwr nwyddau a gwasanaethau

3.1 Mae Coleg y Drindod yn cael effaith diriaethol economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar y rhanbarth. Yn economaidd, mae tri phrif ffactor sy'n pennu'n heffaith; staff, myfyrwyr a phrynu. Gyda chyllideb gyffredinol blynyddol o fwy na £11.1m yn 2005/06 mae Coleg y Drindod yn cael effaith enfawr ar yr economi leol, gan gynnal cyfanswm o 305 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac yn chwistrellu cyfanswm o £17 miliwn i'r economi leol.

Fel y nodwyd yn Adroddiad Bute:

"Mae tystiolaeth glir i gefnogi'r honiad bod y sefydliad yn gwneud cyfraniad sylweddol yng Ngorllewin Cymru wrth gynyddu sylfaen wybodaeth a sgiliau graddedigion a gyflogir yn llawn-amser yn yr isranbarth. O ystyried bod y Coleg yn recriwtio canran mor uchel o fyfyrwyr o radiws lleol, y tebyg yw y bydd effaith economaidd yr hyfforddiant yn gwneud gwir wahaniaeth i ddatblygiad hirdymor y gweithlu lleol. Caiff y sefydliad ddylanwad cadarnhaol wrth fynd i'r afael â segurdod economaidd, gan ddatblygu cyfleoedd newydd gwell ar gyfer llwybrau dysgu anffurfiol a hyblyg, fel y gwelir yn y nifer uchel iawn o fyfyrwyr rhwng 26-65 oed, y nifer uchel o fyfyrwyr anabl a'r gyfran gynyddol sy'n dod o gymunedau Cymunedau'n Gyntaf. Cynorthwyir effaith economaidd a chymdeithasol yr adfywio cymunedol hefyd drwy ddatblygu Prifysgol Gymunedol sy'n ceisio cynyddu sylfaen wybodaeth a sgiliau'r ardal a magu ysbryd entrepreneuriaeth yn ei graddedigion. Cynigia pob punt gan LCC a fuddsoddir yng Ngholeg y Drindod enillion uchel a gwerth am arian ar draws amcanion strategol eang LlCC".

## 4. Cyfraniad Coleg y Drindod tuag at yr Agenda Sgiliau a'i gyfraniad at yr economi leol a rhanbarthol

4.1 Bu i ad-drefnu'r Coleg yn ystod y pum mlynedd diwethaf ei roi mewn safle allweddol i fwrw ati â chynlluniau o bwys a fydd yn rhoi cymorth wrth wella sgiliau yn natblygiad economi sy'n seiliedig ar sgiliau yn Ne-orllewin Cymru. Ystyrir ei gyfraniad fel cymar i genhadaeth Prifysgol Abertawe sy'n seiliedig ar ymchwil, gan wthio menter ac arloesi yn eu blaenau. Cyfranna Coleg y Drindod at feithrin sylfaen sgiliau'r gweithlu sydd ei angen er mwyn ategu'r gweithgarwch economaidd lefel uchel a ddatblygwyd gan y Brifysgol. Mae'n amlwg o gynllun strategol y Coleg fod y sefydliad yn ymroddedig i ddatblygiad economi cynaliadwy cymunedau'r ardal, gan fynd ati i hyrwyddo arloesi er mwyn creu elfen gystadleuol yn lleol a chreu cyfoeth.

4.2 Mewn ymateb i Adolygiad Leitch, fe wnaeth Coleg y Drindod archwiliad o ryngweithiad y Coleg â'r Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau). Mae'r Drindod wedi gwneud gweithio'n agos gyda CSSau mewn partneriaethau ystyrlon yn un o brif nodau ei Strategaeth Drydedd

Genhadaeth, ac fe gadarnhaodd yr archwiliad fod perthnasau gwaith effeithlon gyda'r CSSau allweddol o berthnasedd i weithgarwch y Coleg: Skillset, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, e-Sgiliau, SkillsActive, Pobl yn 1af, Sgiliau er Cyfiawnder, Skills er Gofal a Datblygiad a Sgiliau Dysgu Gydol Oes. Mae cynnydd eisoes yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd gan gynnwys datblygu Graddau Sylfaen, cyfleoedd i astudio rhan-amser neu yn hyblyg, rhaglenni ôl-raddedig gyda ffocws pendant sy'n datblygu sgiliau lefel uwch, a darparu hyfforddiant rheoli mewn meysydd perthnasol.

4.3 Mae ffocws clir ar ddatblygu Dysgu Seiliedig ar Waith yng Nghynllun Strategol y Coleg. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddatblygu cyfres o gyrsiau israddedig ac ôl-raddedig a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd y rhanbarth. Ardystiwyd hyn yn adolygiad annibynnol y coleg:

"Gan fod canran mor uchel o'r myfyrwyr yn dod o Orllewin Cymru, mae'r effaith ar gyfalaf dynol lleol yn helaeth. Mae graddedigion yn debygol o aros yn yr ardal a chyfrannu'n sylweddol at y farchnad lafur. Mae Coleg y Drindod yn ymroddedig i'r cysyniad o ddysgu gydol oes ac i'w ddarparu, gan wneud gwelliannau rhagweithiol yn y farchnad lafar leol. Roedd rhwng hanner a dau draean o gyn-fyfyrwyr diweddar yn fyfyrwyr hyn, rhwng 26-65 oed, o'i gymharu â chanran o 45 y cant mewn Sefydliadau Addysg Uwch ledled Cymru. Mae mwy na 95 y cant o raddedigion mewn gwaith llawn-amser neu wrthi'n astudio ymhellach yn y chwe mis ar ôl gadael y sefydliad."

4.4 Mae'r Coleg wedi datblygu cysylltiadau cryf ag ystod amrywiol o gyflogwyr yn gysylltiedig â'i bortffolio academaidd. Yn ogystal â'u rôl mewn sicrhau bod ystod eang o gyfleoedd ar gael i fyfyrwyr, fe ystyrir bod eu mewnbwn i ddatblygiad rhaglenni academaidd y sefydliad, a'r trafodaethau parthed myfyrwyr yn caffael sgiliau ac yn datblygu cyflogadwyedd, yn bwysig iawn. Chwilir yn ffurfiol am farn cyflogwyr a chyrff proffesiynol fel rhan o brosesau arferol sicrhau ansawdd.

4.5. Mae priodoleddau graddedigion a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd, yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth pwnc benodol, yn cael eu hymgorffori yn rhaglenni academaidd ar draws y ddwy Gyfadran. Yn unol â chyfeiriadedd galwedigaethol darpariaeth academaidd y Coleg, rhoddir gwerth mawr ar gyngor ac adborth gan gyflogwyr. Mae sawl ffurf ar y rhyngweithiad hwn gan gynnwys:

mewnbwn uniongyrchol i ddatblygu ac adolygu'r rhaglen;

cynnig arbenigedd allanol i addysgu ac arholi pynciau arbenigol;

4.6 Mae gan bob Ysgol gysylltiadau hirsefydlog â sefydliadau sy'n berthnasol i'w disgyblaethau. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfoethogi profiad y myfyriwr, er enghraifft, drwy ddarlithoedd arbennig gan siaradwyr gwadd ac astudiaethau achos 'bywyd go iawn'. Caiff gwaith prosiect ei leoli mewn sefydliad allanol neu ei ysbrydoli gan yr heriau ymarferol a wynebir gan gyflogwyr. Mae Ysgol Cyfrifiadura, Busnes a Thwristiaeth, er enghraifft, yn weithgar yn natblygiad twristiaeth yn yr ardal drwy ei gynrychiolaeth mewn cymdeithasau twristiaeth lleol a drwy nifer o ymarferion ymgynghorol a phrosiectau ymchwil; mae Ysgol Astudiaethau Addysg a Chynhwysiant Cymdeithasol yn gwneud defnydd o sefydliadau allanol fel asiantaethau gwirfoddol, canolfannau teuluol a Chanolfannau Dysgu Oedolion mewn perthynas â phrofiadau dysgu'r myfyrwyr; mae Ysgol Theatr Cerdd a'r Cyfryngau wedi datblygu perthynas waith ardderchog gyda Theatr Genedlaethol Cymru, Cwmni Arad Goch, cwmnïau teledu a radio niferus a nifer o gyfarwyddwyr ac actorion llawrydd sy'n cyfrannu yn rheolaidd at addysgu modylau israddedig; tra bo Ysgol y Celfyddydau Creadigol a Dyniaethau wedi sefydlu cysylltiadau agos â'r diwydiant cyhoeddi ar y rhaglenni BA ac MA mewn Ysgrifennu Creadigol, a chydag ystod o ymarferwyr yn y celfyddydau a'r cyfryngau sy'n ymweld â'r Coleg.

4.7 Elfen allweddol o gynigion Cynllun Ffioedd y Coleg o 07-08 fydd cyflwyno cyfnodau yn y gweithle i fyfyrwyr. Bydd y rhain ar ffurf lleoliadau Haf estynedig gyda chyflogwyr lleol. Yn ogystal â gwella profiad dysgu'r myfyrwyr, bydd y rhai sydd ar gyfnod yn y gweithle yn cyfrannu at ddatblygu Mentrau Bach a Chanolig eu Maint a chreu deialog mwy effeithiol gyda'r Coleg.

## 5. Ymgysylltiadau Cydweithredol Coleg y Drindod

### 5.1. Partneriaeth Addysg Uwch De-orllewin Cymru (SWWHEP)

5.1.1. Bydd 2007/08 yn nodi blwyddyn lawn gyntaf project cydweithredol £7.4m rhwng Coleg y Drindod, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe. Mae'r Coleg yn rhagweithiol o fewn cyd-destun sy'n newid yn gyflym ac yn barhaus, ac mae'n gweithio'n unol â'r rhagosodiad a gadarnhawyd yn Ymgeisio'n Uwch y bydd Addysg Uwch yng Nghymru erbyn 2010 yn cael ei diffinio gan 'rwydweithiau rhagoriaeth'. Canolbwyntir ar ddatblygu sector amrywiol o amryfal genadaethau sy'n cymryd ei le priodol yng nghyflwyniad blaenoriaethau ehangach y Cynulliad. Mae'r bartneriaeth strategol gyfredol sy'n canolbwyntio ar gydgyflwyno, partneriaeth, arbedion effeithlonrwydd a mwy o integreiddio, yn ganolog i ddatblygiad parhaus y Coleg. Cytunwyd ar becynnau gwaith gyda CCAUC, mae staff prosiectau wedi cael eu penodi ar draws y 14 maes gweithgarwch a ddiffiniwyd, ac mae rhaglen waith fanwl ar y gweill. Bydd datblygiad Prifysgol De-orllewin Cymru rithwir yn fodel ar gyfer gweithio cydweithredol. Mae'n adeiladu ar ac yn dathlu natur unigryw cenadaethau, ac yn adnabod meysydd cyffredin ar gyfer cydweithredu.

### 5.2 Consortiwm Datblygiad Economaidd De-orllewin Cymru (SWWEDC)

5.2.1 Yn ychwanegol at y cydweithio gan SWWHEP a amlinellir uchod, mae Prifysgol Abertawe (PA), Prifysgol Fetropolitan Abertawe (PFA) a Choleg y Drindod Caerfyrddin (CDC) wedi datblygu ymagwedd gydweithredol at ddatblygu a chyflwyno rhai agweddau ar eu darpariaeth dan y Drydedd Genhadaeth. Mae hyn wedi llwyddo i sicrhau £1.17m ychwanegol oddi wrth CCAUC i fynd â gweithgarwch cydweithredol ym maes y Drydedd Genhadaeth yn ei flaen. Seilir y cydweithredu ar rannu arfer da, cyfnewid agored ar ddatblygiadau polisi o fewn maes y Drydedd Genhadaeth, a phan fo'n briodol, cydymrwymo i helpu cynyddu'r gallu i gyflwyno ym meysydd perfformiad allweddol y Drydedd Genhadaeth megis masnacheiddio IP, trosglwyddo technoleg / gwybodaeth a hyfforddi / ymgynghori.

5.2.2 Bydd y gweithgarwch SWWEDC yn ceisio ychwanegu gwerth at yr ymagwedd Drydedd Genhadaeth a fabwysiadir gan bob SAU

unigol; ac ar ben hyn, bydd cefnogaeth y consortiwm yn galluogi partneriaid i ddatblygu llinynnau gweithgarwch newydd a/neu gryfhau perfformiad mewn meysydd lle nad oes cyflawniad llawn ar hyn o bryd.

Bydd busnesau a'r gymuned ar draws y rhanbarth yn teimlo buddion mwy amlwg yr ymagwedd SWWEDC, oherwydd bydd y consortiwm yn cynnig mwy o ddewis a mynediad at arbenigedd AU drwy fodel cyflwyno sy'n fwy effeithlon ac yn fwy llyfn, a hwnnw'n ymestyn dros ardal ddaearyddol arwyddocaol, o Gastell Nedd Port Talbot yn y dwyrain i Ddoc Penfro yn y gorllewin.

5.2.3 Yn nhermau bras, gellir crynhoi nodau strategol SWWEDC fel a ganlyn:

Alinio gweithgarwch Trydedd Genhadaeth y tri sefydliad â datblygiad ardaloedd Abertawe a'r Cymoedd Gorllewinol a Sir Benfro yng Nghynllun Gofodol Cymru.

Mewnosod brand SWWEDC fel sianel gydnabyddedig at arbenigedd a gwybodaeth AU ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru

Cyfrannu ar y cyd at bolisi cenedlaethol parthed datblygiad economaidd, trosglwyddo technoleg, cysylltiadau diwylliannol a diwydiant – AU.

Cyflwyno mwy o weithgarwch y Drydedd Genhadaeth ar draws ardal ddaearyddol ehangach na'r hyn a fyddai'n bosibl i sefydliadau unigol, ac felly cynyddu i'r eithaf gyfraniad pob SAU unigol i'r rhanbarth

Cynyddu i'r eithaf effeithiau economaidd a chymdeithasol pob SAU sy'n deillio o weithgarwch y Drydedd Genhadaeth

Gwella cyfraniad diwylliannol a chymdeithasol y tri SAU drwy rannu mynediad at arbenigedd mewn mentergarwch cymdeithasol a chymunedol, y celfyddydau creadigol a diwylliannol a chyfrwng Cymraeg / dwyieithrwydd.

### 5.3. Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol De-orllewin Cymru (SWWRLP)

5.3.1 Mae ymarfer ailgyflunio a chydweithio SWWHEP wedi galluogi i'r tri Sefydliad partner ddatblygu cynigion ar gyfer Academi Sgiliau De-orllewin Cymru er mwyn cyflawni'r angen i uwchraddio'r rhanbarth o ran sgiliau ar Lefel 4 ac uwch ac i gefnogi'r agenda Ehangu Mynediad. Mae'r datblygiad hwn yn ymgysylltu'n agos â datblygiad ehangach Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol De-orllewin Cymru fel yr amlinellir isod.

5.3.2 Mae'r Drindod a'i bartneriaid yn ymwneud â datblygiad Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol De-orllewin Cymru. Mae aelodaeth y bartneriaeth yn cynnwys awdurdodau lleol Castell Nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, y pedwar SAU (Coleg y Drindod, PA, Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Llanbedr PS), y 5 Coleg AB (CNPT, Abertawe, Gorseinon, Coleg Sir Gâr, Sir Benfro) a chynrychiolwyr darparwyr hyfforddiant yn y sectorau Gwirfoddol a Phreifat.

5.3.3 Bydd SWWRLP yn anelu at greu rhwydwaith o ddarpariaeth ddysgu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, ac yn cynnig hyfforddiant ac addysg o ansawdd uchel ar draws pob lefel o hyfforddiant, er mwyn cael y budd mwyaf i economi'r rhanbarth. Mae SWWRLP yn cynnig cyfle gwerthfawr ar gyfer cyflwyno gwasanaethau ar y cyd mewn partneriaeth ag AB a sectorau eraill, ac i sicrhau cyllid Ewropeaidd ychwanegol er mwyn gwella mynediad dysgwyr at ystod eang o gyfleoedd dysgu academaidd ac yn y gweithle.

### 5.4. Y Ganolfan ar gyfer Byw'n Gynhwysol (CIL)

5.4.1 Wrth adolygu ymrwymiad y Coleg i gynhwysiad cymdeithasol a grymuso, mae'r Coleg yn arloesi modelau radical newydd ar gyfer hyrwyddo addysg uwch i fyfyrwyr anabl. Ar y cyd ag asiantaethau allweddol, mae'r Coleg wrthi'n datblygu Canolfan ar gyfer Byw yn Gynhwysol (CIL) yn Sir Gaerfyrddin fydd yn cynnig cymorth a gwasanaethau i alluogi ac annog pobl ag anableddau i gyfranogi'n llawn yn eu cymunedau eu hunain. Bydd y Coleg yn rhan bwysig o'r gymuned honno wrth gynnig canolbwynt addysgol. Bydd y Ganolfan hon yn darparu amgylchedd unigryw heb rwystrau gan ddod yn ffagl ymarfer da a chyfle cyfartal i bawb. Dyma'r enghraifft gyntaf yng Nghymru o gynnig hyfforddiant a chymorth addysgol integredig mewn cyd-destun Prifysgol. Bydd yn gweithredu fel canolfan ragoriaeth ar gyfer cynhwysiant yng Ngorllewin Cymru gan ddarparu rhaglen 'Myfyrwyr Anabl'. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr ag anableddau i gael mynediad at gyfleoedd Addysg Uwch gan gynnig ystod o wasanaethau – llety, technoleg gynorthwyol a gwasanaethau atodol, ac yn cynnwys cymorth â chyfathrebu a dehongli iaith arwyddion.

Bydd y Ganolfan hefyd yn darparu poblogaeth ehangach y Sir sydd ag anabledd â chyfle i sefydlu a darparu eu grwpiau Cymorth i Gyfoedion eu hunain, mynediad i Wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor ac Eiriolaeth, yn ogystal â chyfleoedd Gwaith a Chludiant Hygyrch. Bydd y ganolfan ragoriaeth hon yn gallu cynnig rhaglenni hyfforddi i sefydliadau, asiantaethau a busnesau mewn Ymwybyddiaeth Anabledd. Bydd y modylau a gynigir gan raglen Cynhwysiant Cymdeithasol y Coleg yn cynnwys canolbwyntio ar Anabledd a Chynhwysiant yn ogystal ag Anabledd a Rhywedd. Mae gan y rhaglen Cynhwysiant Cymdeithasol botensial i ddatblygu Canolfan Gorllewin Cymru ar gyfer Astudiaethau Anabledd drwy gael y rheiny sydd ag anghenion arbennig i fod yn rhan o ddarparu rhaglenni addysgol.

Mae'r cynnig yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin, yr Ymddiriedolaeth GIG, y Bwrdd Iechyd Lleol, Leonard Cheshire, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin ac ystod eang o asiantaethau cymorth yn y sector gwirfoddol megis y Touch Trust a Gofal Celf.

### 5.5. Canolfan Blynyddoedd Cynnar gyda Mudiad Ysgolion Meithrin

Mae project 'Geiriau Bach' a gyllidir gan LCC wedi llwyddo wrth hyfforddi mwy na 250 o fyfyrwyr ac wedi arwain at ddatblygu dyfarniadau newydd yn cynnwys Tystysgrif AU mewn Ymarfer Cymraeg a Dwyieithrwydd yn y Blynyddoedd Cynnar.

Mewn cydnabyddiaeth o bwysigrwydd darpariaeth ddwyieithog ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a chyflwyniad y Cyfnod Sylfaen, bydd y Drindod yn datblygu Canolfan Blynyddoedd Cynnar £0.9m ar gyfer hyfforddi ymarferwyr blynyddoedd cynnar ar draws Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y project hwn yn adeiladu ar y gwaith llwyddiannus a wnaethpwyd eisoes yn y maes hwn drwy raglen 'Geiriau Bach', a bydd yn galluogi'r Drindod i adeiladu ar ei enw da fel canolfan ragoriaeth mewn partneriaeth â Mudiad Ysgolion Meithrin.

### 5.6. Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin (LSB)

5.6.1 Mae Coleg y Drindod yn ymwneud yn weithredol â Grwp Llywio Cynllunio Cymunedol Sir Gaerfyrddin sy'n gweithredu ar hyn o bryd fel ardal beilot ar gyfer datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae'r Drindod yn cael ei gynrychioli ar y LSB, ac ar y Partneriaethau Adfywio a'r Amgylchedd sy'n bwydo mewn i'r LSB drwy gadeiryddion y Partneriaethau. Mae aelodaeth y LSB yn cynnwys yr awdurdod lleol, Coleg Sir Gâr, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin, Cadeirydd y Rhwydweithiau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd, Heddlu Dyfed Powys, APADGOS, AETh, a LlCC.

5.6.2 Cytunwyd ar themâu cyffredinol y LSB peilot sef Iechyd a Lles a Datblygu Cynaliadwy. Mae'r Drindod yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r agendâu hyn drwy brosiect CIL a amlinellir uchod, a thrwy ymwneud â Phwyllgor Gwaith Partneriaeth yr Amgylchedd. Drwy Brosiect Cyfnewid Gwybodaeth (KEP) ar Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, bydd y Drindod yn darparu data ymchwil ar weithgarwch y sector preifat gydag agenda newid hinsawdd er mwyn bwydo i mewn i ganlyniadau targed cynaladwyedd y LSB, a hefyd bydd yn datblygu cyfleuster rhwydweithio cymdeithasol amlgyfrwng i aelodau'r LSB ac asiantaethau eraill rannu arfer da o ran cynaladwyedd gyda'r sector preifat.

5.7 Mae'r gweithgareddau a amlinellir uchod yn dangos yn eglur arwyddocâd ymrwymiad y Drindod i gydweithio, ac effaith ehangach y gweithgarwch hwn ar yr economi leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r Drindod yn adnabod gwerth gweithio ar draws ffiniau sector a daearyddol er mwyn cynyddu gwerth ei brif gryfderau i'r rhanbarth i'r eithaf, drwy gymryd rôl arweiniol yn natblygiad prosiectau cyfalaf mawr, yn ogystal â thrwy gefnogi prosiectau cydweithredol ehangach.

"Cyfranna'r Coleg at ddatblygiad economi'r rhanbarth gan atgyfnerthu pwysigrwydd Sir Gaerfyrddin fel canolfan ranbarthol ar gyfer datblygu cyfleoedd dysgu uwch a allai gefnogi arloesi economaidd a chymdeithasol rhwng ardaloedd Bae Abertawe/Cymoedd y Gorllewin a Sir Benfro. Datblygodd y Coleg rôl amlwg iddo'i hun fel 'canolbwynt gwybodaeth' sy'n cefnogi nifer o ardaloedd blaenoriaethol a nodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn unol ag argymhellion Cynllun Gofodol Cymru." (Adroddiad Bute: Coleg y Drindod, Caerfyrddin: Gweithio dros Gymru 2006 tudalen 7)

## 6. Strategaeth Entrepreneuriaeth Coleg y Drindod

6.1 Mae Coleg y Drindod, ar y cyd â SAUau eraill yng Nghymru, wedi elwa o'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth (KEF). Mae arian i gefnogi datblygu ac integreiddio entrepreneuriaeth yn rhan o'r cwricwlwm wedi arwain at nifer o ddatblygiadau arwyddocaol, yn cynnwys datblygu Clwb Menter staff/myfyrwyr. Yn unol â ffocws y Coleg ar y Celfyddydau Creadigol, mae Pwyllgor yr Wyl Ffrinj, a ddatblygwyd fel rhan o Wyl flynyddol y Drindod, bellach yn cael ei redeg fel is-grwp o'r Clwb Menter fel y gall y myfyrwyr gael profiad uniongyrchol o sefydlu, hyrwyddo a rheoli digwyddiad fel rhan o'u hastudiaethau.

6.2 Mae llwyddiant y gweithgarwch hwn i'w weld yn y nifer o Ysgoloriaethau KEF a dderbyniwyd, 13 ohonynt rhwng 2004 a 2008. Mae'r Coleg wedi cefnogi datblygu busnesau newydd trwy gyfrwng y rhaglen Ddeillio, gyda phedwar cais yn cael eu cyflwyno'n ddiweddar i'w cymeradwyo ym meysydd allweddol twristiaeth, y celfyddydau creadigol, cynhwysiant cymdeithasol a chynaladwyedd.

6.3 Yn unol â chenhadaeth y Coleg, mae pwyslais ychwanegol ar ddatblygu menter gymdeithasol a chymunedol. Rhaglen Ddeillio (neu Mewn-ddeillio) gyntaf y Drindod oedd y Cwmni Buddiannau Cymunedol cyntaf i'w gofrestru yng Nghymru, sef Trysordy. Mae modylau menter a gyflwynir o fewn astudiaethau Busnes a Rheolaeth yn cynnwys rhai ar Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ac arfer busnes moesegol: mae'r Coleg wedi chwarae rhan allweddol yn cefnogi cais Sir Gaerfyrddin am statws Masnach Deg, ac yn fuan bydd hefyd yn derbyn statws Masnach Deg sefydliadol, gan gefnogi ymrwymiad LlCC i sicrhau mai Cymru fydd y wlad Fasnach Deg gyntaf.

6.4. Y dystiolaeth amlycaf o ymrwymiad y Drindod i'r agenda fenter yw ei fuddsoddiad yn y Ganolfan Mentergarwch Diwylliannol a Chreadigol tra modern, Y Llwyfan. Cefnogwyd y datblygiad £2.5m hwn gan LCC a Chyngor Sir Caerfyrddin. Gweledigaeth y ganolfan yw darparu datblygiad allweddol i gwrdd ag anghenion graddedigion sydd â'u bryd ar gychwyn eu busnes eu hunain, yn ogystal â darparu adnodd ar gyfer diwydiannau creadigol a diwylliannol. Mae nodau ac amcanion 'Y Llwyfan' yn cyd-fynd â gweledigaeth 'Pobl, Lleoedd, Dyfodol' a blaenoriaethau allweddol Strategaeth Gymunedol Sir Gaerfyrddin o ran y celfyddydau a diwylliant, creu swyddi a chynnal gweithlu ifanc. Agorodd y ganolfan ar 1 Medi 2007 ac mae'n darparu canolfan gweinyddu ac ymarfer barhaol ar gyfer y Theatr Genedlaethol, swyddfeydd ar gyfer cwmnïau sy'n gweithio yn y sector diwylliannol ynghyd â hyd at ddeg uned ddeor ar gyfer ysgolheigion KEF a chwmnïau deillio. Mae'r cyfle i'r busnesau hyn gysylltu'n uniongyrchol â menter ddiwylliannol sefydledig yn un bwysig wrth i'r cyfuniad greu canolbwynt busnes uwchlaw màs critigol. Bu'r ganolfan yn llawn o'r cychwyn. Mae gan 'Y Llwyfan' gyfleuster band eang 'trwchus' sy'n arbennig o ddefnyddiol i ddiwydiannau'r cyfryngau. Cyflwynwyd cais i'r Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) a ariennir gan yr UE am arian prosiect i gefnogi twf diwydiannau creadigol a diwylliannol yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin, a darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer y sector yn seiliedig ar y galw.

6.5. Mae datblygu'r cwricwlwm i gefnogi'r agenda fenter, ac yn benodol ganfyddiadau Adolygiad Cox, yn parhau. Mae'r Coleg wedi datblygu rhaglen Meistr yn y Celfyddydau Creadigol sydd yn amlddisgyblaethol a blaengar iawn a fydd yn caniatáu i raddedigion ac ymarferwyr o ystod o ddisgyblaethau weithio gyda'i gilydd mewn ffordd greadigol. Mae'r rhaglen yn recriwtio myfyrwyr ar hyn o bryd ac wedi denu diddordeb o'r Unol Daleithiau a Chanada, yn dilyn cynrychiolaeth o'r Drindod gyda Busnes Creadigol Cymru yng Ngwyl Ffilmiau Ryngwladol Toronto yn Awst 07.

6.6 Ymgynghoriaeth Yn ogystal mae staff academaidd a staff cymorth y Drindod yn ymwneud ag ymchwil sy'n creu incwm a

gweithgarwch ymgynghorol. Gwaith ar gontract i asiantaethau'r sector cyhoeddus yw'r gweithgarwch hwn, ond mae'n anochel o fudd i'r economi a/neu'r gymdeithas. Mae'n cynnwys nifer o brosiectau ymchwil, yn cynnwys prosiect a ariennir gan yr ESRC, Prosiect Dysgu Cydradd, gyda'r staff yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Manceinion i ddynodi egwyddorion allweddol addysgu a dysgu effeithiol i athrawon ysgol uwchradd, a phrosiect gyda LlCC i wella dealltwriaeth a gwybodaeth athrawon sy'n gweithio gyda disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

6. 7 Mae'r Drindod wrthi'n datblygu e-ddysgu ac mae'n un o dri SAU yn unig yng Nghymru a fu'n rhan o gynllun meincnodi e-ddysgu yr AAU yn 2007. Mae'r Coleg wedi mynychu cynhadledd e-ddysgu ryngwladol educa Berlin dros y tair blynedd diwethaf, ac wedi arddangos y deunyddiau a ddatblygwyd trwy brosiectau Geiriau Bach a Tenderwise.

### 7. Llwyddiant y Drindod o ran Derbyn Arian o ystod o ffynonellau, yn cynnwys y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

7.1 O ran y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, mae Coleg y Drindod wedi derbyn grantiau o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i gefnogi 6 phrosiect gyda chyfanswm cost o dros £1m, a phob un ohonynt wedi cael effaith ar yr economi leol a rhanbarthol. Mae pump o'r prosiectau ESF hyn wedi cynnal darpariaeth ar lefel Meistr mewn meysydd megis Twristiaeth Treftadaeth, Rheoli Twristiaeth ac Addysg ar gyfer Cynaladwyedd.

7.2 Mae Coleg y Drindod hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gael arian o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mae'r enghreifftiau yn hyn o beth yn cynnwys cydweithio er 2002 gyda Phrifysgol Caerdydd a'i phartneriaid ar ddwy ran y prosiect Parc Ymchwil Geo-amgylcheddol (GRP) a ariennir gan Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop (ERDF).

7.3 Yn ogystal mae Coleg y Drindod wedi gweithio ar y cyd â sefydliadau Gwyddelig i gael gafael ar gyllid Cydweithrediad Tiriogaethol (Interreg). Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys y prosiect ParNetourism ar bartneriaethau twristaidd ar y cyd â Sefydliad Technoleg Dulyn, a phrosiect Tenderwise (Pecyn Caffael Sector Cyhoeddus i BBaCHau) mewn partneriaeth â Choleg y Brifysgol, Dulyn Mae'r pecyn ar ffurf CD ROM rhyngweithiol aml-gyfrwng a gwefan (www.tenderwise.com) sydd yn cefnogi BBaCHau sy'n ceisio cynyddu eu hymwybyddiaeth a chyfarwyddo â gofynion rheolaethol polisïau caffael y sector cyhoeddus er mwyn tendro ar gyfer contractau a darparu gwasanaethau.

7.4 Bu'r Drindod yn llwyddiannus yn sicrhau arian prosiect gan raglenni KEF a KEP LlCC i gefnogi prosiectau arloesol ym meysydd allweddol y cyfryngau newydd, y celfyddydau creadigol a chynaladwyedd. Roedd y prosiectau hyn yn cynnwys cydweithio ag ystod o bartneriaid, yn cynnwys Cynghorau Sgiliau Sector - Skillset Cymru a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol – a sefydliadau allweddol megis y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy a'r Sefydliad Materion Cymreig.

### 8. Cyfraniad ehangach y Drindod i agendâu cymunedol a diwylliannol

8.1 Mae tystiolaeth helaeth ar gael o gyfraniad arwyddocaol y Drindod i fywyd diwylliannol Cymru.

"Datblygodd y sefydliad i fod yn ganolfan ragoriaeth nodedig ar gyfer y celfyddydau beirniadol, creadigol a pherfformio yng Nghymru. Chwaraea ran strategol wrth gyflenwi cyrsiau'r celfyddydau perfformio yn ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma'r unig sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau israddedig yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg yn y Celfyddydau Perfformio. Gwyddom fod hyfforddiant perfformio o bosibl yn wahanol iawn i'r hyfforddiant a gynigir mewn adrannau llai arbenigol mewn prifysgolion eraill a bod hanfod diwylliant perfformio yn wahanol iawn. Mae'n amlwg bod nifer o gynlluniau hyfforddi a gynigir gan y Coleg yn ymarferol eu natur, yn debyg i hyfforddiant conservatoire. Atgyfnerthwyd statws y sefydliad fel canolfan ragoriaeth genedlaethol ar gyfer y Celfyddydau Perfformio yng Nghymru yn sgil y penderfyniad i leoli Theatr Genedlaethol Cymru yn y Coleg. Cyniga'r Coleg ystod eang o gyrsiau ymarferol yn y Celfyddydau Perfformio sy'n debyg o ran anian i'r rheiny a gynigir gan unrhyw Goleg Cerdd a Drama arall yng Nghymru a Lloegr. Yn achos y Drindod, gwna'r sefydliad hefyd gyfraniad unigryw i wella'r ddarpariaeth ddwyieithog yn y Celfyddydau Perfformio, a fydd o gymorth i anghenion proffesiynol dwyieithog artistiaid a diwydiannau Cymru. O ystyried blaenoriaethau strategol amlwg Cymru Greadigol a phwysigrwydd y Coleg wrth gyflawni'r amcanion hynny, gellid dadlau y dylai Llywodraeth y Cynulliad a'i gorff noddedig perthnasol adolygu'r sefyllfa bresennol lle na dderbynia'r Coleg y lefel briodol o gyllid ar gyfer cyflenwi cyrsiau conservatoire drwy gyfrwng y Gymraeg."

### 9. Casgliad

Mae'r wybodaeth uchod yn diffinio'n glir y rhan allweddol mae'r Drindod yn ei chwarae yn natblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Gorllewin Cymru, a'i gyfraniad helaeth i bolisïau LlCC, yn enwedig wrth gefnogi graddedigion o Gymru i feithrin sgiliau lefel uchel i weithio yng Nghymru. Mae'r parodrwydd i weithio ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid yn gryfder allweddol wrth gynyddu'r dylanwad y mae arbenigedd y Coleg yn ei gael. Mae adroddiad Bute yn crynhoi safle a chyfraniad y Drindod yn glir.

"Cyniga'r Coleg frand nodedig iawn o Addysg Uwch yng Nghymru. Nid yw'r brand hwnnw ar gael mewn unrhyw Sefydliad Addysg Uwch arall yng Nghymru. Mae ei ymrwymiad i ddysgu gydol oes yn hollol amlwg. Daeth y Coleg o hyd i'w gilfach ac mae wedi canolbwyntio ar gynnig gwerth ychwanegol mewn nifer o flaenoriaethau prif bolisïau LlCC. Mae tystiolaeth glir i gefnogi'r honiad bod y cynlluniau hyfforddi newydd a gynigiwyd gan y Coleg er 2000 wedi cael dylanwad cadarnhaol. Argyhoeddiadol yw gweledigaeth y Coleg a'r penderfyniad rheolaethol i greu canolbwynt dysgu ar gyfer yr ardal sy'n cynhyrchu canlyniadau pendant o ran anghenion Cymru yn y dyfodol. Oherwydd eglurder gweithredu'r rheolwyr er 2000 wrth yrru'r agenda hon yn ei flaen, mae'r sefydliad mewn sefyllfa gref.

O ystyried y ffaith bod y Drindod yn cynnig addysg brifysgol i fyfyrwyr sy'n preswylio yng Nghymru, mae'r goblygiadau strategol ar gyfer y Cynulliad o ran ystyried egwyddorion gwerth am arian yn arwyddocaol. Mae gwerth buddsoddi arian trethdalwyr Cymru yn y

cyd-destun hwn yn amlwg. Mae'r buddsoddiad mewn Addysg Uwch yng Ngholeg y Drindod yn gwneud gwahaniaeth nid yn unig i'r myfyrwyr unigol, ond i ddatblygiad sylfaen wybodaeth y rhanbarth ac i adfywiad cymdeithasol a diwylliannol Cymru, gan roi hwb i adfywio cymunedol a gwella elfen gystadleuol sylfaen yr economi."